1907-2007

Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Datganiad Newyddion

Mae mwy o ddewis a chyfleusterau gwell yn allweddol i berswadio merched i fod yn fwy heini

10 Gorffennaf 2007

Mae cit chwaraeon hen ffasiwn ac ystafelloedd newid annigonol yn parhau i fod yn rhwystrau mawr rhag perswadio mwy o ferched i gymryd rhan mewn addysg gorfforol yn yr ysgol, meddai adroddiad a gyhoeddwyd gan Estyn heddiw.

Mae'r adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn edrych ar y modd y mae ysgolion uwchradd yn defnyddio mentrau gwahanol i gynyddu cyfranogiad merched mewn gweithgarwch corfforol fel rhan o fyw yn iach.

Dywed fod llawer o ystafelloedd newid ysgolion yn agored, yn anneniadol, wedi'u haddurno'n wael ac yn llwm. Mae merched yn eu harddegau yn teimlo embaras ac maent yn amharod i ddefnyddio cawodydd hen ffasiwn, agored oherwydd y diffyg preifatrwydd.

Dywed Prif Arolygydd EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, Susan Lewis: "Mae'n amlwg fod yn rhaid dod â chyfleusterau chwaraeon i mewn i'r 21ain ganrif os ydyn ni am wneud i weithgareddau iechyd a ffitrwydd apelio'n fwy at ferched. Mae gwelliannau yn aml yn cael effaith ddramatig ar gyfranogiad, yn

enwedig darparu cyfleusterau ansawdd uchel dan do. Ond mae angen i ni hefyd ennyn diddordeb disgyblion trwy gyflwyno gweithgareddau newydd a darganfod beth sy'n apelio atyn nhw."

Mae'r adroddiad yn argymell y dylai athrawon addysg gorfforol drefnu bod ystod ehangach o weithgareddau ar gael, gan gynnwys yn ystod amser cinio ac ar ôl yr ysgol, a dylid rhoi mwy o gyfleoedd i ferched barhau â gweithgareddau corfforol pan fyddant yn gadael yr ysgol.

Mae mentrau cyllid wedi galluogi athrawon i gynllunio rhaglenni dychmygus gyda gweithgareddau fel trampolinio, yoga, rhwyfo, erobeg dŵr, codi hwyl a dawnsio stryd. Mae'r rhain wedi creu ton newydd o frwdfrydedd, gan ddal dychymyg disgyblion a golygu bod mwy o ferched yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol nag yn y gorffennol.

Rhoddir canmoliaeth arbennig i Fenter Genethod yn Gyntaf Cymru Cyngor Chwaraeon Cymru, sydd â phroses gais syml ac wedi arwain at gyflwyno llawer o weithgareddau gwerthfawr.

Fodd bynnag, roedd pob un o'r athrawon yn yr arolwg yn bryderus ynghylch llwyddiant y mentrau newydd yn y tymor hir, oherwydd roedd yn rhaid rhoi diwedd ar weithgareddau a chlybiau yn aml pan oedd cyllid yn dod i ben.

Yr hyn sy'n dylanwadu fwyaf ar ddewis y gweithgareddau yw'r cyfleusterau sydd ar gael ar y safle. Mae defnyddio cyfleusterau addysg gorfforol (AG) ar gyfer arholiadau allanol yn achosi mwy o anawsterau ac yn rhoi'r argraff i ddisgyblion nad yw addysg gorfforol mor bwysig i ysgolion â phynciau eraill. Lle mae awdurdodau lleol wedi adeiladu canolfannau hamdden ar safleoedd ysgol, mae hyn wedi ymestyn ystod y gweithgareddau dan do ac wedi cynyddu cyfranogiad.

Mae adroddiad Estyn yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru helpu ysgolion i fuddsoddi'n sylweddol mewn gwella cyfleusterau addysg gorfforol a chwaraeon ac y dylai ysgolion sicrhau bod cyfleusterau dan do ar gael trwy gydol y flwyddyn yn ogystal â gwella cyfleusterau newid a chawod.

Mae hefyd yn argymell y dylai athrawon addysg gorfforol ymgynghori â merched i ddarganfod pa weithgareddau a chit chwaraeon sydd orau ganddynt.

Mae'r cyfryngau yn parhau i roi mwy o sylw i ddynion, a nifer fach o ferched enwog ym myd chwaraeon sy'n cael eu hyrwyddo fel modelau rôl cadarnhaol ymhlith merched. Mae angen dangos yr un parch at gyflawniadau merched a bechgyn mewn addysg gorfforol a chwaraeon. Mewn rhai ysgolion, mae llai o ferched na dynion sy'n aelodau o uwch dimau rheoli yn mynd i gefnogi timau'r ysgol ar benwythnosau neu ar ôl yr ysgol, ac yn draddodiadol, cyhoeddir canlyniadau gemau bechgyn cyn gemau merched mewn gwasanaethau.

DIWEDD

Nodiadau i'r Golygydd:

- Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Nod Estyn yw gwella safonau ac ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru trwy arolygu a chyngor, i gefnogi'r weledigaeth a'r cyfeiriad a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

- Comisiynwyd adroddiad Estyn 'Cyfranogiad merched mewn gweithgarwch corfforol mewn ysgolion' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae wedi'i gyhoeddi yn www.estyn.gov.uk

- Mae sail y dystiolaeth yn cynnwys holiadur a anfonwyd i bob ysgol uwchradd yng Nghymru, cyfweliadau ag athrawon addysg gorfforol mewn 19 ysgol uwchradd a chyfweliadau â merched o Flwyddyn 10 ac 11.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r:
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464